HELEDD FYCHAN AS

Plaid Cymru - Canol De Cymru

CYNNWYS

Allan yn y Gymuned •
Busnes y Senedd • Cysylltwch â ni

Mae'r cylchlythyr hwn yn gyfle i'ch diweddaru am fy ngwaith a rhai o'r materion yr wyf wedi bod yn gweithio arnynt dros yr haf.

Yn dilyn y newyddion y bydd prisiau ynni yn cynyddu ymhellach ym mis Hydref, gwn y bydd nifer o unigolion, teuluoedd a busnesau yn bryderus iawn ac yn poeni sut y byddant yn gallu fforddio talu eu biliau. Mae mynd i'r afael â chostau byw yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi a fy nhîm. Ym mis Gorffennaf, gwahoddais sefydliadau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth i ail uwchgynhadledd costau byw ym Mhont-y-clun i drafod ffyrdd o gefnogi etholwyr dros y misoedd nesaf. Bydd uwchgynhadledd arall yn cael ei chynnal ym mis Hydref.

Wrth i dymor newydd y Senedd ddechrau'r wythnos nesaf, rwy'n parhau i godi'r materion sy'n bwysig i chi. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth i gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd, amseroedd aros y GIG a gwasanaethau deintyddol a llawer mwy. Os oes rhywbeth yr hoffech i mi ei godi, cysylltwch â mi.

Heledd Fychan

Heledd Fychan AS

Adroddiad Blynyddol 2021-22

Mae wedi bod yn gymaint o anrhydedd cwrdd â chymaint ohonoch dros y flwyddyn ddiwethaf honno a gweithio ar y materion sy'n bwysig ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n cymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae fy adroddiad blynyddol bellach ar gael ar fy ngwefan. Bydd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o fy ngwaith yn y Senedd ac ar draws y rhanbarth ers i mi gael fy ethol fel Aelod o'r Senedd ar gyfer Canol De Cymru ym mis Mai 2021.

Gallwch ddarllen fersiwn digidol o'r adroddiad blynyddol Yma.

Teyrnged i Tony Burnell

Ym mis Gorffennaf, fe fu farw ffrind annwyl iawn i nifer ohonom – y Cynghorydd Plaid Cymru Tony Burnell.

Roedd Tony yn gymeriad enfawr ac yn weithgar iawn yn ei gymuned, gan wasanaethu fel cynghorydd sir a chynghorydd cymuned yn Ynysybwl.Roedd yn wir yn un o fil, bob amser yn gweithio'n ddiflino dros drigolion Ynysybwl. Roedd ganddo galon enfawr a gwên heintus.

Mae'n golled aruthrol i'w deulu a'i ffrindiau, ei gymuned ac i Blaid Cymru. Bydd yn cael ei gofio'n annwyl gan bawb oedd yn ei adnabod.

Gorffwyswch mewn hedd Tony.

Digwyddiad Costau Byw

Ddydd Mawrth 19 Gorffennaf, fe wnes i a Luke Fletcher, Aelod o'r Senedd dros Orllewin De Cymru, gynnal digwyddiad costau byw ym Mhont-y-clun.
Roedd hyn yn dilyn digwyddiad a gynhaliais yn Nhrefforest ym mis Chwefror, lle daeth sefydliadau ynghyd o wahanol rannau o ranbarth Canol De Cymru sydd yn gweithio i gefnogi pobl sydd yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.
Fel y gwyddom i gyd, mae costau cynyddol bwyd, tanwydd ac ynni yn rhoi unigolion a theuluoedd dan straen enfawr.Mae pob sefydliad yn gweld sut mae costau cynyddol yn effeithio ar fwy a mwy o bobl, ac mae angen rhagor o gymorth i sicrhau bod pobl yn gallu fforddio'r pethau sylfaenol fel bwyd, tanwydd ac ynni. Mae tlodi mewn gwaith yn dod yn broblem gynyddol, ac mae angen i bob haen o Lywodraeth gydweithio i sicrhau bod mwy yn cael ei wneud i helpu pobl.

Mae'r sefydliadau a fynychodd y digwyddiadau i gyd yn gweithio'n galed i gefnogi pobl, ac roedd yn ddefnyddiol iawn dod at ein gilydd i drafod beth sydd angen ei newid a sut gallwn ni i gyd weithio'n agos gyda'n gilydd i ddarparu cefnogaeth. Bydd hon yn flaenoriaeth barhaus i fy swyddfa, a byddwn yn annog unrhyw un sy'n dioddef i geisio cyngor a chymorth.

Gallwch ddarllen yr adroddiad o'r digwyddiad trwy glicio ar y ddelwedd yma. Os nad ydych eto wedi cwblhau yr arolwg costau byw, byddwn yn gwerthfawrogi pe byddech yn gwneud hynny.

Allan yn y gymuned

Rydw i a fy nhîm wedi parhau i gwrdd gyda grwpiau a sefydliadau cymunedol ar draws y rhanbarth. Mae rhai uchafbwyntiau dros yr haf yn cynnwys cyfarfod Lee a Nina a gweddill y tîm yn Strategaeth Bryncynon. Cefais hefyd y pleser o gwrdd â Becky Lewis cyn ei chystadleuaeth cymanwlad gyntaf yn Birmingham.
Rwy'n parhau i gefnogi pobl ifanc gyda'u hymgyrchoedd ar draws y rhanbarth ac fe wnes i gyfarfod gyda Ruben Kelman, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru dros Ogledd Caerdydd i drafod trafnidiaeth am ddim i bobl ifanc yn ogystal â chyfarfod â Coco, Alys a Mai wrth iddynt brotestio tu allan i'r Senedd i dynny sylw i'r argyfwng hinsawdd a natur.

Os hoffech i mi ymweld â grŵp neu sefydliad yn eich ardal, neu os hoffech gael cyngor, cysylltwch â fy swyddfa.

Gallwch ddysgu mwy am fy ymweliadau ledled y rhanbarth yma.

Wythnos Werdd Pontypridd

Mae Wythnos Werdd Pontypridd yn dychwelyd unwaith eto eleni.
Dyddiadau: 24 Medi – 1 Hydref 2022

Beth sy'n digwydd? Llwyth! Bydd sesiynau casglu sbwriel, gweithdai ar goed a chasglu hadau , sesiwn trwsio, gweithdy gwyddoniaeth, gwasanaeth i'r coed .... a llu o bethau eraill.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am wythnos werdd Pontypridd yma a digwyddiadau wythnos werdd eraill ar draws y rhanbarth yma.

Byddwch hefyd yn ymwybodol rwy'n siwr bod Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cytuno'n ddiweddar cynlluniau ar gyfer datblygu ardal Pontypridd sydd agosaf at yr orsaf drenau. Yn ystod Wythnos Werdd Pontypridd y llynedd, fe wnes i holi barn trigolion am yr hyn yr hoffent ei weld ym Mhontypridd fydda'i yn helpu'r amgylchedd ac fe rannwyd llwyth o syniadau gwych gyda mi. Cyflwynais rhain i'r Cyngor. Datblygodd Cyfeillion y Ddaear Pontypridd lu o syniadau amgen hefyd, ond yn anffodus, nid oedd y Cabinet yn fodlon gwrando ar farn trigolion.

Eisteddfod

Ar ôl tair blynedd hir, braf oedd bod yn ôl yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn Nhregaron. Dyma'r cyntaf i mi fynychu fel Aelod o'r Senedd, felly treuliais llawer o'm hamser yn trafod materion yn ymwneud â'm gwaith gyda sefydliadau ac unigolion er i mi hefyd gael cyfle i fwynhau'r cyfoeth o weithgareddau oedd ar gael.

Ymhen dwy flynedd, byddwn yn croesawu'r Eisteddfod i RhCT. Bydd yn gyfle gwych i bawb – boed nhw'n siarad Cymraeg neu beidio – i fwynhau gŵyl ddiwylliannol fwyaf Ewrop. Byddaf yn parhau i ymgyrchu am fwy o gefnogaeth i'r Eisteddfod, ac yn gobeithio pan ddaw'r Eisteddfod i RhCT, y bydd mwy o docynnau am ddim ar gael i drigolion lleol.

Cyfarfod Cyhoeddus yn Hirwaun

OAr 8 Awst, mynychais gyfarfod cyhoeddus yn Hirwaun a drefnwyd gan y Cynghorydd Karen Morgan a'r Cynghorydd Adam Owain Rogers. Ffocws y cyfarfod oedd yr effaith y mae'r gwaith deuoli yn ei gael ar drigolion lleol ac roedd y pryderon yn amrywiol a lluosog. Rwyf wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynglyn â'r pryderon hyn, a byddaf yn parhau i weithio'n agos gyda Chynghorwyr lleol a'r gymuned i sicrhau eu bod yn cael mwy o gefnogaeth.

Ymhlith y materion a godwyd roedd pryderon am oryrru. Atgoffir trigolion i roi gwybod am bob achos o yrru peryglus. Mae gwybodaeth am sut i wneud hynny ar gael yma.

Cefnogi Streicwyr

Ar 29 o Orffennaf, ymunais â streicwyr CWU ar y llinell biced ym Mhontypridd i ddangos fy nghefnogaeth i weithwyr BT ac Openreach oedd ar streic oherwydd setliad cyflog annigonol. Maent wedi chwarae, ac yn parhau i chwarae, rhan allweddol wrth sicrhau bod seilwaith hanfodol yn gweithio i alluogi cymaint ohonom i aros yn gysylltiedig.

Rwyf hefyd wedi bod yn cefnogi gweithwyr eraill sy'n streicio a byddaf yn parhau i wneud hynny dros y misoedd nesaf. Mae'n hanfodol bwysig bod cwmnïau'n cydnabod gwerth eu gweithwyr, ac yn eu trin â pharch. Ni ddylai elw byth cael ei flaenoriaeth cyn pobl.

Ymweld ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Ym mis Awst ymwelais ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Roedd yn gyfle i ddiolch i staff rheng flaen am eu holl waith caled yn ystod y pandemig a chlywed am yr heriau parhaus.Dros yr haf lansiais fy arolwg iechyd rhanbarthol. Dros y flwyddyn diwethaf mae etholwyr di-rif wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r heriau y maent wedi'u hwynebu wrth gael mynediad at wasanaethau'r GIG ar draws y rhanbarth.

- Presgripsiwn hwyr
- Methu trefnu apwyntiad
- Methu cofrestru gyda deintydd GIG
- Amser aros am ambiwlans
- Amser aros am brofion neu lawdriniaeth

Tl gael gwell ddealltwriaeth o'r ffordd orau i'ch cefnogi chi a datrus unrhyw broblemau, hoffwn glywed am eich profiadau chi o ddefnyddio'r Gwasanaeth Iechyd yn eich ardal. Bydd hyn yn dylanwadu ar fy ngwaith yn y Senedd gan gynnwys cwestiynnau i'r Bwrdd Iechyd a'r Gweinidog Iechyd er mwyn cefnogi staff y GIG

Gallwch gwblhau'r holiadur drwy ddilyn y ddolen yma.

Llifogydd

Dros yr haf mae fy nhîm wedi bod allan yn dosbarthu llyfrynnau llifogydd. Ers derbyn y llyfryn llifogydd mae trigolion Abercwmboi wedi cysylltu gyda mi. Mae nhw dal yn poeni'n fawr am y systemau sydd yna i ddelio gyda llifogydd fel digwyddodd adeg Storm Dennis yn 2020.

Mae'r Cyngor wedi gwneud tipyn o waith i'r cwlfertau wnaeth flocio bryd hynny, ac mae asiantaethau eraill wedi gweithio i glirio blynyddoedd o faw oedd wedi casglu yn y pibau.

Un peth sydd heb ei daclo yw'r llyn ar hen dir y ffwrneisi. Mae lefel y silt sydd wedi adeiladu yn y llyn yn golygu bod lot llai o gapasiti yna i ddelio gyda llifogydd. Mae nhw eisiau gweld y llyn yn cael ei glirio fel y bydden nhw'n gallu cysgu'r nos. Hefyd, mae'r cwlfert ar ochr pella'r llyn yn llawn sbwriel ac mae'r bariau metel yna yn hen ac wedi torri ac angen eu hadnewyddu. Byddaf yn gweithio gyda trigolion i sicrhau bod eu profiadau yn bwydo mewn i'r adolygiad llifogydd, a hefyd i geisio cael perchnogion y llyn i weithredu.

Cefnogi'r mesurau terfyn cyflymder 20mya newydd

Dros y flwyddyn ddiwethaf dwi wedi cyd-weithio gyda nifer o drigolion ar draws y rhanbarth i atal goryrru yn eu hardal. Ers i'r cyfyngiad cyflymder o 20mya mewn ardaloedd preswyl gael ei gyhoeddi fis diwethaf, mae nifer o etholwyr wedi cysylltu â mi yn pryderu am y newid.

Felly, beth mae'r newid hwn yn ei olygu?

- ·Bydd terfyn cyflymder o 20mya yn cael ei gyflwyno ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur gyda golau stryd yn unig.
- Mae'r siawns y bydd rhywun yn goroesi cael ei daro gan gar ar gyflymder o 20mya yn saith gwaith yn uwch na 30mya
- Bydd y newid hwn yn golygu llai o ddamweiniau ar ein ffyrdd.
- Bydd cyflymderau is hefyd yn golygu y bydd mwy o bobl yn teimlo'n hyderus i gerdded a beicio
- A bydd strydoedd yn fwy diogel i blant gerdded i'r ysgol

Mynediad cyfartal i addysg Gymraeg yn Ne Cymru

Cyn toriad y haf, rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad am y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Er bod gan y cynlluniau lawer o gamau positif megis buddsoddiad pellach mewn 'Cylchoedd Meithrin' ar draws y rhanbarth, roedd yn siomedig clywed mai dim ond 15 awdurdod lleol sydd wedi ymrwymo i greu ysgolion cyfrwng Cymraeg newydd dros y degawd nesaf.
Os ydym am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae mynediad cyfartal i addysg Gymraeg yn hollbwysig.

Gyda dim ond 23 ysgol gynradd newydd cyfrwng Cymraeg yn bwriadu cael eu hagor ledled Cymru dros y 10 mlynedd nesaf, rwyf yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru yn bod yn ddigon uchelgeisiol.

Mae gormod o Gynghorau ledled Cymru yn methu eu targedau laith Gymraeg dro ar ôl tro.

Ym Mhontypridd, mae'r penderfyniad i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a'i huno gydag ysgol Heol y Celyn yn golygu bydd rhaid i deuluoedd yn Ynysybwl a Chilfynydd deithio ymhellach os ydyn nhw'n am i'w plant gael addysg cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn groes i ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau mynediad cyfartal.

Os yw Llywodraeth Cymru o ddifrif ynglŷn a gwella mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg, mae rhaid iddyn nhw ddal awdurdodau lleol i gyfrif. Byddaf yn parhau i godi'r mater hwn yn y Senedd dros y tymor nesaf.

Cyfarfod â'r tîm

Danny Grehan - Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned

Amanda Elis - Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned

Brooke Webb - Swyddog Cyfathrebu

Eleri Griffiths - Gweithiwr Achos

Wendy Allsop -cynorthwy-ydd gweinyddol

Ken Moon - Cydlynydd Dyfodol Cynaliadwy

Sut y gallwn helpu

Rwy'n cynnal cymorthfeydd yn rheolaidd, i gynnig help a chefnogaeth i etholwyr.

Fe allaf i a fy nhîm helpu gyda amrywiaeth eang o faterion megis echyd, Tai, Trafnidiaeth, Addysg a'r Amgylchedd.

Os oes yna unrhyw beth y gallaf wneud i'ch helpu, cysylltwch i drefnu apwyntiad trwy ebost neu ffôn.

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda chyngor ar bopeth i gynnal cymorthfeydd cyngor yn y swyddfa. Rhestr o'r dyddiadau a sut i drefnu apwyntiad ar gael ar fy ngwefan yma.

Cysylltwch â Heledd

01443 853214

Heledd.Fychan@Senedd.Cymru

2 High Street, Pontypridd, CF37 1QJ

Heledd Fychan AS / MS

@Heledd_Plaid

@Heledd_Plaid

Plaid Cymru
Party of Wales

Senedd Cymru
Welsh Parliament